OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif 17 (Cy. 6)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Diwygio) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *8 Ionawr 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *9 Ionawr 2024* |
| *Yn dod i rym - -* | *30 Ionawr 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Diwygio) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Ionawr 2024.

### Diwygio Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

**2.** Yn rheoliad 3(1) (addasiadau darfodol i Benderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC) o Reoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021(**2**), yn lle "31 Ionawr" rhodder "29 Ebrill".

(**1**) O.S. 2011/2379 (Cy. 252). Mewnosodwyd paragraff 11A yn Atodlen 2 gan reoliad 2(2) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1639) (Cy. 344)).

(**2**) O.S. 2021/1 (Cy. 1), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/376 (Cy. 117), 2021/977 (Cy. 231), 2021/1480 (Cy. 382), 2022/618 (Cy. 140) a 2022/1317 (Cy. 266).

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

8 Ionawr 2024

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379) (Cy. 252).

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/1 (Cy. 1)) er mwyn estyn yr ataliad dros dro ar y gofyniad i baratoadau cig fod wedi eu rhewi'n ddwfn pan fônt yn cael eu mewnforio i Gymru o Aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaro, yr Ynys Las neu'r Swistir, gan gysoni â'r dyddiad a benodwyd yn ddyddiad dod i ben estynedig y "cyfnod graddoli trosiannol", a ddiffinnir yn Atodiad 6 i Reoliad (EU) 2017/625 (EUR 2017/625). Mae'r estyniad hwn hyd 29 Ebrill 2024.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.